

# Y cyd-destun ehangach

Mae Cynlluniau Rheoli Traethlin (SMP2s) yn ymatebion polisi i newidiadau amgylcheddol. Maent yn darparu'r fframwaith ar gyfer rheoli effaith hirdymor llifogydd llanwol ledled Cymru.

Maent yn rhannu'r arfordir yn adrannau llai a elwir yn 'unedau polisi' ac yn esbonio sut y dylai pob uned gael ei rheoli yn y tymor byr, canolig a hir, gan ystyried cynaliadwyedd gweithgareddau ac asedau rheoli perygl llifogydd a blaenoriaethau ar gyfer amddiffyn rhag llifogydd.



## Gwasgfa Arfordirol

Lle mae strwythurau artiffisial wedi'u hadeiladu i amddiffyn cymunedau a thir rhag llifogydd ac erydu arfordirol, megis morgloddiau neu waliau cynnal creigiau, gall y cynefin gael ei atal rhag symud tua'r tir wrth i lefelau'r môr godi, ac mae'n parhau i gael ei golli o'r lan isaf. Cyfeirir at hyn fel 'gwasgfa arfordirol'.

Mae gwasgfa arfordirol yn golygu bod maint a swyddogaeth y morfa heli yn lleihau dros amser, ynghyd â'r cynefinoedd a'r rhywogaethau y maent yn eu cynnal.

Mae llawer o gynefinoedd morfa heli wedi'u gwarchod yn gyfreithiol, felly mae'n ofynnol i ni greu morfa heli newydd i wrthbwysu colledion yn y dyfodol pan fydd lefel y môr yn codi.



## Bywoliaethau

Efallai bod tirlfeddianwyr a ffermwyr wedi sylwi bod yr amgylchedd yn newid ac rydym am glywed eich pryderon a'ch syniadau o ran addasu.



## Yr Amgylchedd Naturiol

Mae ardal yr astudiaeth yn ffurfio cyfuniad pwysig o gynefinoedd arfordirol a gwlyptir sy'n gweithredu fel coridorau gwyrdd i gefn gwlad cyfagos.

Adlewyrchir pwysigrwydd amgylcheddol yr ardal hon yn y nifer fawr o gynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig.


Mae llawer o'r rhain o bwysigrwydd Cenedlaethol a Rhyngwladol ac mae'r rhain hefyd yn cael eu bygwth gan effeithiau llifogydd a'r newid yn yr hinsawdd.



## Hamdden

Mae ardal yr astudiaeth yn cynnig llawer o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden amrywiol.

Bydd y rhain hefyd yn cael eu hystyried yn ofalus, gan eu bod o bwysigrwydd mawr i iechyd a lles pobl, a hefyd yn dod ag incwm i'r gymuned.



## Yr Amgylchedd Hanesyddol

Mae gan yr ardal o amgylch Pwllheli hanes hir a diddorol. Mae Pwllheli ei hun wedi bod yn anheddiad ers y 13eg Ganrif, gyda chysylltiad cryf â'r môr fel prif borthladd pysgota Pen Llŷn.

Fodd bynnag, mae'r arfordir yma wedi newid yn sylweddol dros amser. Dros y 150 mlynedd diwethaf, bu datblygiad ac ymyrraeth sylweddol gan bobl.

Bydd y camau hyn wedi effeithio ar ddatblygiad y draethlin yn ystod y cyfnod hwn, a byddant yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol.

Er enghraifft, arweiniodd adeiladu'r rheilffordd at amgáu ardaloedd y gors ar hyd arfordir y dwyrain ac, yn sgil hynny, mae wedi cyfyngu ar allu'r twyni eu hunain i symud tua'r tir.

Bu newidiadau helaeth i Draeth De Pwllheli, gyda gwaith adfer tir wedi digwydd yn ystod y 19eg ganrif. Estynnwyd y rheilffordd ar draws cei'r gogledd i Bwllheli ym 1910, a arweiniodd at sefydlogi safle'r draethlin ym Mhwllheli ei hun.

Ym 1813, adeiladwyd arglawdd Pwllheli (Embankment Road) a gathiau llifogydd llanwol, gan gysylltu'r brif dref â Thraeth y De. Creodd hyn strwythur sylfaenol yr harbwr mewnol ac allanol sy'n bodoli heddiw, yn ogystal â chael effaith amlwg ar sut mae'r tir i'r gorllewin o fan hyn wedi addasu.



## Tirwedd

Mae angen ystyried harddwch naturiol rhagorol yr ardal yn ofalus gyda'i chysylltiad agos â Pharc Cenedlaethol Eryri wrth gynllunio prosiectau.